UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

Don't call it a dream...
...Call it a plan. Threshold

LIMITLESS
Programme

# Dysgu dan Arweiniad trwy Brosiect LIMITLESS.

## Beth yw'r gwasanaeth hwn?

Mae 'Dysgu dan Arweiniad' y Brosiect LIMITLESS yn cynnig cyfle i fenywod i astudio yn eu cartrefi gyda chefnogaeth 1:1 gan ein tiwtoriaid cymwys, trwy nifer o blatfformau electronig. Mae ein hyfforddiant wedi'i achredu gan Agored Cymru ac mae'n hollol rhad ac am ddim i fenywod sy'n gweithio, ar gontract sero-awr neu'n hunangyflogedig. Rhaid i fenywod byw neu weithio yn: Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, Caerffili, Blaenau Gwent a (mewn perthynas â'n hyfforddiant Strand 3) Torfaen. Ariennir LIMITLESS gan y European Social Fund (ESF), dan Flaenoriaeth 2, Sgiliau ar gyfer Twf: AMCAN PENODOL 4. Rhaglen addysgiadol cefnogaeth ydy hi ar gyfer menywod dros 18 oed, sy'n gweithio neu'n byw yn Sir Caerfyrddin, Sir Benfro, Caerffili a Blaenau Gwent.

## Pam ydych chi'n gwneud hyn?

Fel arfer mae Prosiect LIMITLESS yn cyflwyno ei hyfforddiant yn y gymuned ar draws gwahanol awdurdodau unedol. Ond, fel llawer o sefydliadau eraill, rydym yn ymateb yn y modd mwyaf priodol i gadw pawb yn ddiogel ar ôl toriad Covid-19. Rydym yn benderfynol i barhau i ddarparu ein cwricwlwm i fenywod sydd â diddordeb mewn uwchsgilio yn ein cymuned, er ei fod mewn ffordd wahanol.

## Beth ydych chi'n mynd i'w wneud?

Bydd deunyddiau astudio ar gael i'n dysgwyr trwy e-bost neu bost. Dyma'r un deunyddiau a ddefnyddir yn ein dosbarthiadau. Ond, byddwn hefyd yn darparu deunyddiau ychwanegol, cyfeiriadau, ar argymhellion i adnoddau eraill (YouTube, gwefannau, cardiau fflach, ayyb) i fwyhau'ch profiad dysgu. Bydd gennych apwyntiadau pwrpasol gyda'n tiwtoriaid (os ddymunwch, nid ydyw'n orfodol) trwy nifer o blatfformau electronig gan gynnwys ffôn/FaceTime/Zoom/Skype/WhatsApp, ayyb, a bydd ein tiwtoriaid yn eich arwain trwy'r hyfforddiant.

## Sut byddaf yn cael fy asesu?

Mae rhan fwyaf yr asesiad yn cael ei chwblhau trwy gyflwyno llyfryn gwaith. Mae'r llyfrau gwaith yma yn cynnwys cwestiynau ac atebion byrion sydd eu hymwneud â'r deunyddiau addysgu sydd wedi'u darparu.

## Beth os ydw i'n cael anhawster i gwblhau'r llyfr gwaith?

Bydd ein tiwtoriaid wrth law i helpu - byddant yn gallu eich cefnogi trwy'r gwahanol lwyfannau electronig, sgyrsiau ffôn, e-byst a thecstiau, ac ati. Pe byddech chi'n cael unrhyw anhawster wrth gyflwyno'ch llyfr gwaith, byddwn yn ymdrechu i ddarganfod modd arall o achredu'ch dysgu.

## Am faint o amser bydd hyn yn para?

Dyma'r tro cyntaf byddwn yn darparu Dysgu dan Arweiniad; mae Tim Addysg Threshold wedi bod yn darparu addysg yn y gymuned ers blynyddoedd lawer, ac rydym yn ffeindio, fel ein holl ddysgwyr a chefnogwyr, fel bod angen llywio'r amgylchiadau newydd a chythryblus a ddaeth yn sgil pandemig Covid-19.

Serch hynny, mae ein tiwtoriaid yn hapus i dreialu'r fenter newydd hon nes ein bod yn gallu parhau i gyflwyno gwaith unwaith eto mewn dosbarthiadau, a byddwn yn parhau i wneud hynny yn y dyfodol agos a chyhyd os fod galw amdanynt.

## Beth sydd angen i mi ei enwud i gymryd rhan?

Yn gyntaf, fe fydd angen i chi gofrestru gyda Phrosiect LIMITLESS. Mae cofrestru'n gofyn i chi (a) lenwi Ffurflen Cychwyn LIMITLESS a (b) darparu tystiolaeth o'ch cymhwysedd. Bydd ein tiwtoriaid wrth law i'ch helpu gyda hyn.

Yn ddelfrydol, dylai fod gennych gyfeiriad e-bost sy'n gweithio - unwaith y byddwch wedi cofrestru, anfonir deunyddiau dysgu atoch.

## Pa dystiolaeth sydd angen i mi ei chyflwyno, a sut ydy i'n ei chyflwyno?

Ariennir LIMITLESS gan y European Social Fund (ESF), dan Flaenoriaeth 2, Sgiliau ar gyfer Twf: AMCAN PENODOL 4. Rhaglen addysgiadol cefnogaeth ydy hi ar gyfer menywod dros 18 oed, sy'n gweithio neu'n byw yn Sir Caerfyrddin, Sir Benfro, Caerffili a Blaenau Gwent.

Bydd angen i chi gyflwyno tystiolaeth o'ch oedran, statws cyflogaeth a phrawf eich bod yn byw neu'n gweithio yn yr awdurdodau unedol uchod.

Gellir sganio'r dystiolaeth hon a'i hanfon trwy e-bost atom. Neu, os nad oes gennych sganiwr, gallwch dynnu llun o'ch tystiolaeth. Rhaid i ffotograffau fod yn glir a bod yr ysgrifen ar y dogfennau yn ddarllenadwy. Mae apiau sganio am ddim ar gael yn eang i'w lawrlwytho i ffonau symudol os ddymunwch i'w defnyddio.

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund
advice quality standard
Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government
INVESTORS IN PEOPLE Accredited Until 2021
Agored Cymru

The LIMITLESS Project is funded by the European Social Fund (ESF) under Priority 2, Skills for Growth: SPECIFIC OBJECTIVE 4. It is a project for women in employment (it doesn't matter if you are full-time, part-time, self-employed or on a zero hour contract), aged 18 and over, living OR working in the unitary authorities of Blaenau Gwent,

## Sut le fydd Dysgu dan Arweiniad LIMITLESS?

Fel pob enghraifft o ddysgu o bell, mae yna fanteision ac anfanteision.

Mae addysg o bell yn cynnig hyblygrwydd i'n dysgwyr i benderfynu beth maen nhw eisiau ei ddysgu a phryd maen nhw eisiau ei ddysgu, ac ar ba gyflymder. Mae ein holl hyfforddiant wedi'i achredu gan Agored Cymru ac mae gan bob un o'n tiwtoriaid gymwysterau proffesiynol.

tiwtoriaid (a dim rhyngweithio o gwbl gyda rhai dysgwyr) o gymharu â dysgu yn y dosbarth traddodiadol Threshold. Efallai y bydd hwn yn peri pryder i rai dysgwyr, ond efallai y byddai'n well gan eraill. Ni fyddem yno i'ch cymell fel sy'n arferol, ond fe fyddem ni wrth gwrs yn gwneud yr hyn a allwn i'ch cefnogi.

## Beth ydych chi'n ei ddisgwyl gan eich dysgwyr?

Rydym yn tybio eich bod yn ymgysylltu â'r rhaglen hon achos bod gennych ddiddordeb mewn dysgu ac uwchsgilio. Os, ar unrhyw adeg, yr ydych chi eisiau rhoi terfyn iddi, rhowch wybod i ni. Rydym yn rhagweld galw mawr am y gwasanaeth hwn. Os na allwn ni gysylltu â chi ar ôl 3 ymgais, neu os fethwch unrhyw amseroedd dysgu pwrpasol gyda'n tiwtoriaid y cytunwyd arnynt yn flaenorol, heb rybudd, gyda gofid bydd rhaid i ni eich tynnu oddi ar ein rhestr hyfforddi.

Gallwch wrth gwrs cofrestru unwaith eto ar gyfer cyrsiau hyfforddi yn y dyfodol, ond mae'n rhaid i'n tiwtoriaid reoli a chefnogi nifer beonodol o ddysgwyr, a bydd yn rhaid iddynt symud ymlaen at y dysgwr nesaf ar ein rhestrau hyfforddi.

### Oes diddordeb gennych? Cysylltwch â ni trwy ein

**E-bost** | limitless@threshold-das.org
**Ffôn** | 01554 700650
**Cyfeiriad** | 12-14 John Street, Llanelli, Carmarthenshire, SA15 1UH

UNDEB EWROPEAIDD EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru Welsh Government
Cronfa Gymdeithasol Ewrop European Social Fund
advice quality standard
Ariennir gan Lywodraeth Cymru Funded by Welsh Government
INVESTORS IN PEOPLE | Accredited Until 2021
Agored Cymru